# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 9fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Euros Puw, Arwel Davies, Huw Edwards, Rhys Jones, Gwynfryn Williams a'r clerc
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng.Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Cofnodwyd y buddiant perthnasol ger y drafodaeth am y cais grant i Gwynedd Ni, isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyflwyno cais am leni llwyfan i Neuadd Parc a chreu ramp a llwybr newydd ym mynwent Talybont. Dosbarthwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y llwybr ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnwys pris Gwyn Charles gyda'r cais grant (Rhys Richards a Huw Charles yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cofnodion Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.
ii) Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

v) Ceisiadau Cynllunio.
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.

b) Derbyniadau.
i) Ad-daliad TAW - £1570.44

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Dŵr Cymru.
Gofynnwyd i'r clerc ail-gysllytu a swyddogion Dŵr Cymru i drafod materion a oedd wedi codi yn dilyn byrst mewn peipen yn Llidiardau lle'r oedd amryw o gartrefi wedi bod heb ddwr am ddyddiau heb unrhyw ddarpariaeth dŵr dros dro. Roedd un preswylfa hefyd, yn cael trafferth gyda cael Dŵr Cymru i drwsio difrod i'w ann edd ar ôl byrst blaenorol.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Culfet ar ffordd y Nodol angen ei glirio.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 14eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ………………………………………….. Dyddiad: ……………….